# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2023**

**TAG**
**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 5**
**SAFON UWCH (NEWYDD)**
**1000N50-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**UNED 5**

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a’r Cywyddau**
***(papur ysgrifenedig)***

**CYNLLUN MARCIO HAF 2023**

1. **Rhyddiaith yr Oesoedd Canol**

Mae 45 marc i’r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun, 1(a) a’r un modd i 1(b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

(a) Disgwylir i’r ymgeiswyr allu darllen a deall orgraff a gramadeg y testun gwreiddiol er mwyn ateb yr adran hon.

Disgwylir i’r ymgeiswyr allu deall ystyr, cynnwys a rhediad storïol y dyfyniad a chyflwyno dehongliad trefnus, cryno ohono megis yr hyn a geir yn y golofn gyntaf.

Disgwylir i’r ymgeiswyr allu nodi eu bod wedi deall arwyddocâd syniadau cyd-destunol sydd yn y dyfyniad, megis y rhai a geir yn y ddwy golofn olaf.

© WJEC CBAC Cyf.

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| Clywodd Matholwch am y llanast oedd Efnysien wedi'i wneud ar geffylau'r Gwyddelod. Cadarnha ei wŷr mai sarhad oedd y bwriad. | Mae'n arwyddocaol mai penderfynu difrodi **ceffylau** Matholwch a wnaeth Efnysien. Roedd ceffyl yn symbol o gryfder. Byddent yn pwyso tunell, yn gryf gan y byddai'n rhaid iddynt allu cario marchog canoloesol yn ei arfwisg drom i ryfel. Roedd hefyd '*yn symbol o ffrwythlonedd ac o allu'r byd i atgenhedlu'* fel y dywed Rhiannon Ifans. Mae'r ffaith bod ceffylau gwynion wedi eu cerfio ar sawl bryn yn dangos pwysigrwydd y ceffyl i'r Celtiaid. Un o'r enwocaf yw'r un yn Uffington yn Berkshire. Roedd y dduwies Epona yn gysylltiedig â'r ceffyl a gwelir cerfluniau ohoni yn eistedd ar geffyl, yn gwisgo clogyn hir ac yn cario allwedd i'r stablau. I'r gwrandawr byddai clywed bod Efnysien wedi niweidio ceffylau ynddo'i hun yn ddychryn, ond mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth, gan mai ceffylau brenin ydynt, a brenin ar ymweliad â gwlad arall yn ei wneud yn sarhad o'r mwyaf. | Y '*chwedyl'* y cyfeirir ati yw gweithred Efnysien yn difrodi ceffylau Matholwch drwy dorri eu gweflau wrth eu dannedd, eu clustiau wrth eu pennau, eu cynffonau wrth eu cefnau a'u hamrannau hyd at yr asgwrn. Dyma sy'n cychwyn thema cynnen yn y chwedl.<br><br>Teimla Bendigeidfran fod yn rhaid iddo dalu iawndal am y difrod ac mae'n digolledu Matholwch drwy roi ceffylau iach iddo, ynghyd â gwialen arian a phlât aur. Mae hynny'n llai nag a roddid i frenin Gwynedd yn ôl y cyfreithiau Cymreig gan fod y wialen iddo ef o aur hefyd, ond mae'n ymgais i adfer ei bŵer. Caiff y Pair Dadeni ei ychwanegu'n ddiweddarach fel ffordd o adfer ei allu i atgenhedlu. |
| | Mae'r hyn a wnaeth Efnysien i'r ceffylau yn dangos agwedd **greulon** o'i gymeriad, Nid eu lladd a wna ond eu '*anfuruaw ac eu llygru'* fel bod yr anifeiliaid yn dioddef a Matholwch yntau hefyd yn gorfod dioddef drwy eu lladd ei hun. | Awgrymwyd sawl rheswm am gymhellion Efnysien. Y mwyaf amlwg yw iddo deimlo bod ei falchder wedi'i frifo gan nad ymgynghorodd Bendigeidfran ag ef ynglŷn â phriodas Branwen. Cynigia Saunders Lewis reswm arall, sef bod gan Efnysien deimladau o gariad llosgachol tuag at Branwen ac mai cenfigen sydd yma. Tynna sylw at ei ymateb pan glyw fod Branwen wedi'i rhoi yn wraig i Matholwch – *'Ay yuelly y gwnaethant wy am uorwyn kystal a honno, ac yn chwaer i minheu, y rodi heb uyghanyat i?*' Dywed yr ysgolhaig: *'Tybed nad oes yma fwy nag awgrym o gariad llosgach? Does dim hafal i hynny am fagu unigrwydd sy'n uffern.'* |

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| | Gwelir thema y **diniwed yn dioddef** yn amlwg yma. Nid oedd y ceffylau wedi gwneud dim i haeddu'r fath driniaeth. Doedd Matholwch chwaith wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Daeth i Ynys y Cedyrn mewn heddwch a gwnaeth gais am Branwen fel gwraig iddo yn unol â chonfensiynau'r oes drwy ofyn i'w brawd. Doedd dim rhaid i Bendigeidfran ymgynghori ag Efnysien cyn cytuno gan mai hanner brawd oedd ef, ac yn unol â'r cyfreithiau Cymreig doedd dim rhaid cael ei ganiatâd ef.<br><br>Wrth i'w wŷr berswadio Matholwch mai sarhad oedd bwriad gwŷr Ynys y Cedyrn, pwysleisir thema arall amlwg yn y chwedl. Yma mae Efnysien wedi **sarhau** Matholwch drwy ymosod ar ei geffylau ac mae Matholwch yn sarhau Bendigeidfran drwy adael heb ofyn caniatâd. Pwysleisia'r llyfrau cyfraith canoloesol y cysylltiad rhwng sarhad ac iawndal. Os oes unigolyn yn cael ei sarhau ac os nad oes iawndal am hynny gellid disgwyl dial. Unwaith mae'r iawndal wedi ei dalu caiff y 'gwaradwydd' ei ddileu. | Mae hon yn thema sy'n ymddangos droeon yn y chwedl. Branwen yw'r cymeriad amlycaf sy'n dioddef cosb a thriniaeth israddol er nad yw wedi gwneud dim i haeddu hynny. Mae Bendigeidfran hefyd yn dioddef yn y ffordd mwyaf difrifol posibl erbyn diwedd y chwedl drwy ei farwolaeth, ond eto, mae wedi gweithredu'n anrhydeddus. Caiff Gwern ei daflu i'r tân, nid oherwydd unrhyw beth a wnaeth, ond oherwydd yr hyn yr oedd e'n symbol ohono, sef priodas Branwen a Matholwch.<br><br>Mae thema sarhad hefyd yn ganolog i'r chwedl. Caiff Branwen ei sarhau drwy ei gyrru o'i hystafell yn y llys a'i gorfodi i bobi yn y gegin. Ychwanegir at hyn drwy'r dull y mae'r negeswyr yn ei chyfarch. |
| Gwêl Matholwch hi'n anodd credu y byddent wedi rhoi merch gystal â Branwen iddo os mai ei sarhau a fynnent. Perswadia ei wŷr ef i gilio at ei longau yn barod i adael. | Mae'r disgrifiad o Branwen fel '*morwyn gystal, kyuurd, gyn anwylet gan y chenedyl'* yn nodi **statws uchel** Branwen a'r meddwl mawr sydd gan ei chenedl ohoni. Mae'r triawd i ddisgrifio'i rhinweddau yn nodwedd gyffredin yn y chwedlau. Dyma'r rhinweddau a ddisgwylid mewn arglwyddes neu uchelwraig yn ôl Gramadegau'r Penceirddiaid: *'Gwreigdda o arglwyddes neu uchelwraig a folir o bryd a gwedd, a thegwch, ac addfwynder, a digrifwch a haelioni, a lledneisrwydd, a doethineb, a chymendod, a diweirdeb, a thegwch pryd a gwedd, a disymlder ymadroddion, a phethau eraill ardderchog addfwyn canmoladwy.'* | Mae'r nodweddion mae Matholwch yn eu canmol yma yn cael eu hamlygu yn Branwen wedi iddi ddod yn frenhines yn Iwerddon. Mae'n rhoi etifedd i Matholwch a chaiff ei chanmol am ei haelioni. Mae hynny'n gwneud y dial a wneir arni gymaint â hynny'n waeth ac yn annheg. |

© WJEC CBAC Cyf.

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| | Drwy annog Matholwch i '*kyrchu dy longeu'* mae ei wŷr yn argymell bod y brenin yn **sarhau** Bendigeidfran. Disgwylid i unrhyw un a fyddai'n cael croeso a nawdd gan westai i ofyn am ganiatâd y gwestai hwnnw cyn gadael. Gwelir hynny ym mhedwaredd cainc y Mabinogi pan fo Gronw Pebr yn gofyn i Blodeuwedd am ganiatâd i adael, ac nid yw Blodeuwedd yn rhoi'r caniatâd hwnnw iddo, ac felly mae'n rhaid iddo aros.<br><br>Wrth i Matholwch gytuno ag argymhellion ei wŷr i adael – *'Ac ar hynny arouuyn y longeu a wnaeth ef'* – mae'n dangos ei **wendid** fel cymeriad. Mae'n dangos mor **hawdd yw dylanwadu** ar Matholwch a'i berswadio i weithredu mewn ffordd arbennig. Gwelir effaith pwysau ei wŷr hyd yn oed yn amlycach gan fod Matholwch yn ei gweld yn anodd credu fod y sarhad yn fwriadol. Nid oedd yn gwneud synnwyr bod y sarhad wedi ei wneud ar ôl rhoi Branwen yn wraig iddo yn hytrach na chynt. Eto, caiff ei berswadio o'r bwriad gan ei wŷr er bod rhesymeg yn awgrymu fel arall. | Gwelir yr un gwendid cymeriad mewn mannau eraill yn y chwedl. Wrth adrodd hanes Llasar Llaes Gyfnewid a'i deulu a'u heffaith ar gymunedau yn Iwerddon mae'n ei gwneud yn glir bod ei wlad wedi'i orfodi i ddewis rhwng cefnogi Llasar neu ei safle fel brenin. Ar gyngor ei wŷr mae'n penderfynu adeiladu tŷ haearn a'u llosgi. Nid syniad Matholwch oedd cosbi Branwen chwaith. Ildio i bwysau mae o i wneud hynny ac i atal unrhyw un rhag teithio i Ynys y Cedyrn. Ei wŷr sy'n ei berswadio i ffoi a thorri'r bont dros Afon Llinon pan glyw fod Bendigeidfran yn dod i Iwerddon i achub ei chwaer. |
| Clyw Bendigeidfran fod Matholwch yn gadael y llys heb ganiatâd ac anfona negeswyr i holi pam. | Yn ddiweddarach yn y chwedl mae Iddig fab Anarawg yn un o'r **saith gŵr** sy'n cael eu gadael i amddiffyn Ynys y Cedyrn wedi i Bendigeidfran a'i filwyr fynd i Iwerddon i achub ei chwaer.<br><br>Mae Efeydd Hir neu Hefeydd Hir yr un enw â thad Rhiannon sy'n ymddangos yn y gainc gyntaf fel gwraig Pwyll a mam Pryderi. Hefëydd Hen oedd ef. Mae'r epithet 'Hir' yn awgrymu ei fod yn dal. | Dyma ddau o'r saith marchog a adawodd Bendigeidfran yn Ynys y Cedyrn pan aeth i Iwerddon i achub Branwen, gyda Charadog ap Bran yn arweinydd arnynt. Pan oresgynnodd Caswallon ap Beli y deyrnas yn absenoldeb Bendigeidfran lladdodd chwech o'r gwŷr gan ddefnyddio ei fantell hud a'i gwnâi yn anweledig. Roedd Iddig a Hefëydd ymhlith y rhain. Bu farw Caradog o dorcalon. |

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
| --- | --- | --- |
| Yr ateb a gânt gan frenin Iwerddon yw iddo gael ei gywilyddio'n hallt drwy dderbyn Branwen yn wraig ac ar ôl hynny ei sarhau. Synna na fyddai hynny wedi digwydd cyn yr uniad yn hytrach nac wedyn. Ceisia'r negeswyr bwysleisio mai dioddefwr yw Bendigeidfran hefyd yn yr achos hwn ac nad oedd ef na'i wŷr yn ymwybodol o'r twyll. | Mae Matholwch tua diwedd y dyfyniad eto yn cydnabod statws Branwen fel merch i frenin ac *'yn trydedd prif rieni yr ynys hon.'* Mae hyn yn annisgwyl yma gan nad yw Gwern wedi'i eni eto. Mae'n bosibl i Branwen gael ei disgrifio fel un o dair prif riant yr ynys hon yn Nhrioedd Ynys Prydain yn wreiddiol a chynnig yr Athro Sioned Davies mai Rhiannon, mam Pryderi ac Arianrhod, mam Lleu allai fod y ddwy arall. Y tebygrwydd yw bod glos yn egluro hyn wedi'i roi ar ymyl y llawysgrif ac iddo gael ei ymgorffori i'r testun mewn copïau diweddarach. Posibilrwydd arall yw mai 'rhiain ' sef merch, oedd yn wreiddiol.<br><br>Mae '*chysgu genthi'* yn cyfateb i briodas yma. Ni cheir cyfeiriad at briodas yn yr ystyr grefyddol. Yn hytrach, nodir yr uniad gan y term 'cysgu gan' sef cyfeiriad at y weithred rywiol. Unwaith y byddai merch wedi cysgu gyda dyn byddai ei statws gyfreithiol yn newid. Roedd morwyndod merch yn bwysig. Cyfrifoldeb ei theulu oedd tystio bod merch yn wyryf wrth ei rhoi i'w phriodi. Yna, byddai'r cyfrifoldeb amdani yn trosglwyddo i'r gŵr.<br><br>Cyfeiria'r negeswyr at y ffaith bod Bendigeidfran hefyd wedi'i sarhau drwy weithred Efnysien i'r ceffylau. Cyfrifoldeb Bendigedifran oedd amddiffyn Matholwch tra oedd ar ymweliad ag ef. Roedd yr hyn a wnaeth Efnysien yn ymosodiad ar bŵer a phwysigrwydd Bendigeidfran hefyd. | Er bod Matholwch yma yn pwysleisio eu statws briodasol, nid yw Branwen byth yn llwyddo i integreiddio'n llawn i deulu ei gŵr. Caiff ei thynnu rhwng dau deulu gan ymdrechu'n ofer i sicrhau heddwch rhwng teulu ei gŵr a theulu ei brodyr. Mae'n parhau'n deyrngar i'r Gwyddelod hyd yn oed ar ôl iddynt ei chosbi, gan berswadio Bendigeidfran i dderbyn y cynghrair a gynigir er mwyn sicrhau heddwch rhwng y ddwy wlad. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 1(a)** **(15)**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12-15** | • arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• enghreifftio'n effeithiol wrth ateb |
| **10-11** | • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• enghreifftio addas a phwrpasol wrth ateb |
| **8-9** | • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau<br>• arddangos dealltwriaeth dda o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• enghreifftio addas wrth ateb |
| **5-7** | • arddangos peth gwybodaeth am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• cyfeirio ar y testun |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun<br>• cyfeirio at rai elfennau penodol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• cyfeirio at y testun yn achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

Aralleirio darn yn y papur arholiad – dim mwy na 4 marc.
Aralleirio darn a chyfeirio at weddill y chwedl – dim mwy na 7 marc.

© WJEC CBAC Cyf.

(b) Dylai'r ymgeiswyr ddefnyddio'r dyfyniad yn sylfaen i'w hateb a chyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddyfynnu'n ddeallus er mwyn cefnogi gosodiad neu safbwynt am bwysigrwydd cymeriadau yn y chwedl.
Gwobrwyir ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu bod nhw wedi deall dehongliadau ysgolheigion o'r chwedl.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall cysyniadau megis:

**Cefndir y teitl:** Arglwyddes Charlotte Guest alwodd y gainc hon yn *'Branwen the daughter of Llŷr'* mewn cyfieithiad Saesneg yn y 19eg ganrif. Gynt, cyfeirid at y gainc fel '*Brân*', '*Brân Fendigaid'* neu '*Mabinogi Bendigeidfran'*. Awgrymwyd bod Charlotte Guest wedi mynd ati'n fwriadol i roi gwedd fwy ffeministaidd i'r chwedl, a noda'r Athro Sioned Davies efallai iddi wneud hynny oherwydd fod ganddi gydymdeimlad â Branwen fel cymeriad gan iddi hithau hefyd orfod symud o Loegr i Ddowlais ger Merthyr Tudful ar ei phriodas. Dywed yr Athro Sioned Davies: '*Gellid dadlau bod newid y teitl o Bendigeidfran i Branwen yn ymdrech fwriadol ar ei rhan – aeth yn erbyn trefn ysgolheigion gwrywaidd y cyfnod. Trwy wneud hynny sicrhaodd fod llais y ferch i'w glywed yn ail gainc y Mabinogi*.'

**Pam mae Branwen yn haeddu bod yn brif gymeriad?**

- Er mai cymeriad goddefol yw Branwen am y rhan fwyaf o'r chwedl, **ei phriodas** hi a Matholwch ac ymateb Efnysien i hynny sy'n gyrru'r digwyddiadau. Mae ymateb Efnysien: *'Ay yuelly y gwnaethant wy am uorwyn kystal a honno ac yn chwaer y minheu, y rodi heb uyghanyat i?*' yn dangos cryfder ei deimladau tuag ati. Mae Matholwch yn y dyfyniad yn cydnabod ei thras uchel a'i phwysigrwydd i'r genedl a'i thylwyth – '*morwyn gystal, kyuurd, gyn anwylet gan y chenedyl'.*
- Ar gychwyn y chwedl caiff ei disgrifio fel '*tryded prif rieni yn yr ynys hon; **teccaf** morwyn yn y byt oed'.* Mae Matholwch yn y dyfyniad yn cydnabod ei statws- *'tryded prif rieni yr ynys honn, ac yn uerch y urenhin Ynys y Kedyrn.'*Ond mae ganddi **ddoethineb** hefyd. Hi sy'n cynghori ei brawd i gynnal yr heddwch rhwng gwŷr Ynys y Cedyrn a'r Gwyddelod ar ôl i Bendigeidfran ddod i'w hachub: *'a thrwy gynghor Branuen uu hynny oll, ac rhac llygru y wlat oed genti hithau hynny*', Mae'n ddyfeisgar yn y ffordd y mae hi'n hyfforddi'r aderyn drudwen i fynd â'r neges i'w brawd. Hi sy'n dehongli'r olygfa ryfeddol a welodd y gwylwyr moch ar y môr, a hynny er iddynt ddangos diffyg parch tuag ati. Fel y dywed Saunders Lewis: '*Mor gynnil y dangosir hi'n arglwyddes ddyfeisgar yn ei thrueni, a'i hysbryd heb ei lethu a'i hymennydd ar waith'*.
- Mae rhyw **urddas** tawel amdani. Er mai Efnysien sydd wedi achosi'r llanast, Branwen sy'n cymryd y bai. Cyn iddi farw o dorcalon ar lan afon Alaw, dywed: ' *'Oy a uab Duw,' heb hi, 'guae ui om ganedigaeth. Da a dwy ynys a ddiffeithwyt om achaws i'.'* Tynna'r Athro Sioned Davies sylw at ei rhinweddau digamsyniol: *'Yn ei marwolaeth mae'n dawel ac urddasol, fel yn ei bywyd.'*
- Gwêl Saunders Lewis fwy iddi na'r cymeriad diniwed yn unig. Mae iddi **asgwrn cefn**: '*Nid merthyr di-liw mo hon, er mor gynnil y portread, ond brenhines sy'n wladweinydd, sy'n trefnu etifeddiaeth i'w mab. Pan ddaw'r cyfarfod i estyn y frenhiniaeth iddo, gyda'r gorchfygwyr, rhwng ei dau frawd, y cymer hi ei sedd, gan wynebu ei phriod a'i wyrda.'*

© WJEC CBAC Cyf.

- Hyd yn oed yn **symbolaidd** mae pwysigrwydd iddi. Hi yw'r cymeriad sy'n clymu dwy wlad a dau ddiwylliant ynghyd. Mae iddi ran yn y tylwyth brenhinol Gwyddelig ac mae'n aelod o deulu brenhinol Ynys y Cedyrn, er nad yw wir yn perthyn yn llwyr i'r un ohonynt. Eto, er iddi gael ei thrin yn wael ganddynt mae'n deyrngar i'r Gwyddelod. Hi yw mam yr etifedd, Gwern, sy'n symbol o ddyfodol y genedl.

**Pam nad yw Branwen yn brif gymeriad?**

- Cymeriad **goddefol** ydy hi gan fwyaf. Mae pethau'n digwydd iddi yn hytrach na hi ei hun yn gweithredu. Caiff ei rhoi i Fatholwch am resymau gwleidyddol gan dderbyn ei thynged yn ddigwestiwn. Dydy hi'n ddim ond gwrthrych mewn gêm boliticaidd. Dydy hi ddim hyd yn oed yn siarad yn y chwedl nes yr aiff y negeswyr i'w holi beth yw'r olygfa ar y môr tua chanol y chwedl.
- Tynna Ian Hughes sylw at y gwahaniaeth rhwng Branwen a Rhiannon yn y gainc gyntaf o ystyried y rhan sydd ganddynt yn y plot: *'O ran y prif gymeriad benywaidd, ymddengys nad oes gan Franwen ddewis na dweud o gwbl ynghylch ei phriodas; caiff ei rhoi fel darn o eiddo gan ei brawd i frenin Iwerddon fel symbol o undod gwleidyddol rhwng y ddwy ynys tra mai Rhiannon ei hun sy'n penderfynu pwy y mae am ei briodi ac o dan ba amgylchiadau.'*
- **Cymdeithas wrywol** oedd y gymdeithas ganoloesol. Tynna'r Athro Sioned Davies sylw at draethawd canoloesol ar Gyfraith Gwragedd sy'n tanlinellu *bod 'safle'r ferch yn dibynnu'n llwyr ar ei chysylltiadau ag aelodau gwrywaidd ei theulu.'*

**Felly pwy arall fyddai'n ymgeiswyr am deitl prif gymeriad y chwedl?**

- Gallai **<u>Bendigeidfran</u>** fod yn ymgeisydd teilwng.
- Mae dwy o'r pedair cainc yn cael eu henwi ar ôl y cymeriad a enwir fel **geiriau cyntaf y chwed**l – Pwyll Pendefig Dyfed a Math fab Mathonwy. *'Bendigeiduran uab Llyr a oed urenhin coronawc ar yr ynys hon . . .'* yw geiriau cyntaf yr ail gainc, ac felly byddai'n deg derbyn Bendigeidfran fel y prif gymeriad, yn arbennig gan mai ef yw'r cymeriad sy'n amlwg drwy'r chwedl. Egyr y chwedl drwy gyfeirio ato fel brenin Ynys y Cedyrn yn eistedd ar graig Harlech ynghyd â'i wŷr a chloir drwy gyfeirio at gladdu ei ben yn Llundain.
- Cyhoeddodd Ian Hughes ei gyfrol ef gyda'r teitl 'Bendigeiduran Uab Llyr' a chyfiawnha hyn yn y rhagymadrodd: '*'Fy mwriad i yw cyfeirio at y testun o dan y teitl a ddefnyddid cyn cyfnod Guest, sef Bendigeiduran Uab Llyr. Tybiaf mai hwnnw yw prif gymeriad y testun – y cymeriad a enwir yn y frawddeg agoriadol, y cymeriad sy'n gwmni i'w wŷr hyd y diwedd, a'r cymeriad sy'n ymdrechu i lywodraethu dros Brydain mewn ffordd gytbwys, gyfiawn a doeth ac i ofalu am ei bobl a'i deulu yn y ffordd orau y gall.'*
- Bendigeidfran yw'r **penteulu** sy'n gwneud y **penderfyniadau** sy'n llunio bywydau ei deulu. Ef sy'n penderfynu derbyn cynnig Matholwch i briodi Branwen, ef sy'n penderfynu mynd i Iwerddon i'w hachub, ef sy'n penderfynu derbyn telerau heddwch y Gwyddelod ac ef sy'n gwarchod ac arwain ei filwyr hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth.
- Mae Bendigeidfran yn gymeriad **goruwchnaturiol**, yn gawr o ran corffolaeth: '*Nyt ymywn tŷ yd oeddynt, namyn ymywn palleu. Ny angassei Uendigeituran eiryoet ymywn tŷ*.' Oherwydd hyn adeilada'r Gwyddelod dŷ i'w anrhydeddu tua diwedd y chwedl. Mae'r disgrifiad ohono'n cerdded ar draws y môr o Ynys y Cedyrn yn awgrymu ei faint anarferol a thystiolaeth arall o'i faint yw'r ffordd mae'n gorwedd ar draws yr afon i alluogi i'w filwyr groesi drosto. Dadleuwyd bod yr elfen oruwchnaturiol hon yn deillio o'r ffaith mai olion mytholeg y Brythoniaid a welir yma. Duw oedd y Bendigeidfran gwreiddiol.

© WJEC CBAC Cyf.

- Bendigeidfran yw'r **cymeriad cryfaf** yn y chwedl, yn arweinydd cadarn ac yn arddangos nodweddion brenin delfrydol. Cyfeiria'r Athro Sioned Davies at sut yr oedd Gramadegau'r Penceirddiaid yn dweud y dylid moli brenin: '*Arglwydd a folir o feddiant, a gallu, a milwriaeth, a gwrhydri, a chadernid, a balchder, ac addfwynder, a doethineb, a chymendod, a haelioni, a gwarder, a hygarwch wrth ei wŷr a'i gyfeillion, a thegwch gweithredoedd, a phethau eraill addfwyn anrhydeddus*.'
- Gwelir cadernid Bendigeidfran fel **arweinydd** gan mai ef sy'n gwneud y penderfyniadau wedi ymgynghori â'i wŷr, ac mae doethineb yn ei weithredoedd. Gwelir hyn amlycaf yn y ffordd mae'n ymateb i Llasar Llaes Gyfnewid a Chymidei Cymeinfoll. Wedi i Matholwch fethu eu rheoli a cheisio'u lladd mae Bendigeidfran yn defnyddio'u cryfderau ac yn rhannu'r teulu er mwyn cryfhau'r deyrnas: '*Eu rannu ym pob lle yn y kyuoeth, ac y maent yn lluossauc, ac yn dyrchauael ym pob lle, ac yn cadarnhau y uann y bythont, o wyr ac arueu goreu a welas neb.'*

**Oes ymgeiswyr eraill?**

- Er nad yw yn aml y cymeriad mwyaf hawddgar gellid dadlau mai **Efnysien** yw'r prif gymeriad. Gweithredoedd Efnysien sy'n **gyrru'r plot** yn y chwedl ac mae'r awdur yn disgrifio'r rhain yn fanwl iawn. Disgrifir sut y difrododd Efnysien geffylau Matholwch yn ei holl erchylldra: '*Ac yn hynny guan y dan y meirych, a thorri y guefleu wrth y danned uddunt, ar clusteu wrth y penneu, ar rawn wrth y keuyn, ac ny caei graf ar yr amrannau, eu llad wrth yr ascwrn*.' Felly hefyd y disgrifir sut y gwasgodd bennau'r milwyr yn y sachau croen yn y tŷ yn Iwerddon: '*Sef a wnaeth ynteu, y deimlaw hyt ban gauas y benn, a guascu y benn yn y glyw y uyssed yn ymanodi yn y ureichell drwy yr ascwrn.'* Oherwydd gweithred erchyll Efnysien yn stablau Matholwch mae'r holl gynnen yn cychwyn a dyma sy'n gyrru holl ddigwyddiadau'r chwedl. Fel y dywed Yr Athro Sioned Davies '*Efnysien yw catalydd yr holl ddinistr'.* Dywed Ian Hughes amdano: *'Mae elfen amlwg o'r seicopathi ynddo: ef sy'n symud y naratif ymlaen trwy ei weithredoedd ysgeler byrbwyll afreolus.'*
- Mae Efnysien yn gymeriad **crwn**, Mae'r ymosodiad ar y ceffylau yn dangos ei greulondeb, ac yn dangos elfen afresymol i'w gymeriad yn ôl yr Athro Sioned Davies. Ond eto mae ochr mwy teimladwy, edifeiriol iddo. Gellid dadlau mai achub ei gydwladwyr mae o wrth wasgu pennau'r Gwyddelod yn y sachau ac mae'n sylweddoli mai ei fai ef yw'r gyflafan yn Iwerddon a cheisia wneud iawn am hynny drwy guddio yng nghanol cyrff y Gwyddelod a thorri'r Pair Dadeni: ' *'Oy a Duw,' heb ef, 'guae uy mot yn achaws yr wydwyc honn o wyr Ynys y Kedyrn; a meuyl ymi,' heb ef, 'ony cheissaf i waret rac hynn.' '*
- Efnysien yw'r cymeriad y cawn wybodaeth am yr hyn sydd ar ei **feddwl**. Ceir sawl enghraifft o'i feddyliau, fel pan fo'n cynllunio i daflu Gwern i'r tân: ' *'Y Duw y dygaf uyg kyffes,' heb ynteu yn y uedwl, 'ys anhebic a gyflauan gan y tylwyth y wneuthur, a wnaf i yr awr honn.'*
- Daw Efnysien â llawer o **themâu pwysig** yn y chwedl i'r amlwg, fel sarhad, balchder, dial, cwlwm teuluol, creulondeb, edifeirwch a'r diniwed yn dioddef i enwi ond rhai. Heb Efnyisen a'i weithredoedd afresymol ni fyddai llawer o'r rhain mor amlwg yn y chwedl.
- Gellid dod i benderfyniad ai Branwen yw prif gymeriad y chwedl i gloi.

**Cwestiwn 1(b)** **(15)**

| | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| **12-15** | • dadansoddi cymeriadau/themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd<br>• crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio'n effeithiol |
| **10-11** | • dadansoddi cymeriadau/themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas a phwrpasol |
| **8-9** | • arddangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau/themâu<br>• crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas |
| **5-7** | • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cymeriadau/themâu<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth am gymeriadau/themâu<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• rhesymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu/enghreifftio'n achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol i 1(a) ac 1(b). **(15)**

| | **AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig** |
|---|---|
| **12-15** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| **10-11** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| **8-9** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **5-7** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon yn briodol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| **3-4** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon syml<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig. |

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymgeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

**<u>Asesiad Synoptig</u>**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 1 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: e.e. dadansoddi cymeriadaeth/themâu a defnyddio iaith ysgrifenedig. Disgwylir iddynt hefyd wneud cysylltiadau rhwng y testun gosod yn y gyfrol *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* neu'r testun sydd yn yr adnodd *Branwen Ferch* Llŷr ar wefan adnoddau CBAC https://adnoddau.cbac.co.uk/ â diweddariad o'r chwedl gyfan. **[45]**

**Cwestiwn 2**

**Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun i 2 (a) a'r un modd i 2 (b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

(a) Disgwylir i ymgeiswyr drafod cefndir y gerdd yng nghyd-destun y traddodiad yn yr Hen Ogledd yn y 6ed ganrif. Dylent berthnasu'r cefndir i'r dyfyniad dan sylw. Os digwydd iddynt sôn am Aneirin yn hytrach na Thaliesin rhaid i'r ffeithiau fod yn berthnasol i Daliesin cyn y gallant ennill marciau.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddeall y cefndir arwrol a chynnwys elfennau megis y canlynol yn eu hatebion:

- Roedd Taliesin yn bencerdd ac yn un o'r Cynfeirdd a oedd yn canu yn yr Hen Ogledd yn y 6ed ganrif. Tybir iddo ganu tua'r flwyddyn 580 gan fod cyfeiriad at frwydr o'r flwyddyn hon yn ei ganu.
- Ceir y cyfeiriad cynharaf ato gan y mynach Nennius yn yr Historia Brittonum.

- Roedd gan Taliesin gysylltiad penodol â theyrnas Rheged (ardal o gwmpas Caerliwelydd/Carlisle heddiw). Yn y gerdd hon i fab Urien cyfeirir ato fel arglwydd Llwyfenydd hefyd. Dywed yr Athro Marged Haycock y gallai'r fro honno ger afon Lyvennet i'r de ddwyrain o Gaerliwelydd fod yn galon teyrnas Rheged.
- Mae posibilrwydd fod cysylltiad rhyngddo a Phowys ar un adeg. Awgryma Syr Ifor Williams mai brodor o Bowys ydoedd. Ceir cerdd ganddo i Gynan Garwyn, brenin o Bowys a cherdd ddadolwch i Urien – awgrym iddo fynd i Bowys i ganu o bosibl.
- Datblygodd chwedloniaeth o gwmpas enw Taliesin ar ôl ei farwolaeth – erbyn y 9fed ganrif, daethpwyd i edrych arno fel bardd holl wybodus, yn ddewin. Mae'r chwedl hon wedi'i lleoli ym Mhowys hefyd.
- Ymddengys enw'r bardd mewn chwedlau eraill hefyd e.e. yn chwedl Branwen, fe'i henwir yn un o'r saith gŵr wnaeth ffoi o Iwerddon wedi i Bendigeidfran gael ei frathu â'r waywffon wenwynig.
- O bosibl canodd Taliesin hefyd i Gwallog y credir iddo deyrnasu yn Elmet neu Elfed ger Leeds.
- Mae achau cynnar yn awgrymu bod Owain yn un o chwe mab Urien Rheged (Owain, Rhun, Rhiwallon, Elfin, Pasgen a Chadell). Mae'n bosibl iddo ddod yn frenin wedi marwolaeth Urien.

- Roedd swyddogaeth a statws arbennig i'r bardd yn y gymdeithas arwrol. Swydd Taliesin fel pencerdd oedd canu mawl i Urien, brenin Rheged a'i fab Owain – eu disgrifio fel brenhinoedd dewr mewn brwydr a noddwyr hael i'w deiliaid. Mae canu Taliesin yn batrwm o foli delfryd o arweinydd.
- Cred Syr Ifor Williams, Gwyn Thomas a llawer o feirniaid eraill mai cerdd a ganwyd adeg marwolaeth Owain fab Urien neu yn fuan wedyn yw hon. Gofynnir i Dduw ofalu amdano bellach – '*Gobwyllir ei Rên o'i raid'*.
- Cymdeithas arwrol oedd hi, lle'r oedd brwydro cyson rhwng llwythau Brythonig yr Hen Ogledd a'r Eingl. Roedd llwythau Deifr a Brynaich yn y dwyrain yn berygl cyson.
- Oherwydd mai oes ryfelgar oedd hon '*roedd gofyn i frenhinoedd fod yn arweinwyr cryf a dewr mewn brwydr ac amddiffyn eu tiriogaeth'* fel y dywed yr Athro Marged Haycock. Byddai angen iddynt gynnal gosgordd i amddiffyn eu tiriogaeth. Canmolir Owain am ei allu milwrol yn safleoedd perycla'r fyddin – *'esgyll gawr gwaywawr llifaid'*. Dyma un oedd yn '*medel galon, gefeiliaid'*, yn cipio a lladd ei elynion. Gwnâi hyn mor naturiol a greddfol ag yr oedd blaidd yn hela – '*mal cnud yn dylud defaid'*, a hynny gyda'i offer arbennig – '*ei amliw seirch'*.
- Byddai angen iddynt hefyd ychwanegu at eu teyrnas drwy ddwyn eiddo, anifeiliaid a thrysorau'r gelyn. Byddai Owain yn gwneud hyn – '*cyd as cronai mal caled'*.

- Ei brif elyn oedd Fflamddwyn, a chystal oedd gallu a dewrder Owain doedd lladd Fflamddwyn '*fwy nogyd cysgaid'* iddo. Llysenw ar elyn peryglus Urien ac Owain oedd. Nid oes sicrwydd pwy oedd. Ceir cyfeiriad ato hefyd yn Brwydr Argoed Llwyfain gan Talieisin. Efallai iddo fod yn un o arweinwyr yr Angliaid ac mae'r ffaith i Daliesin sôn am farwolaeth Fflamddwyn yn syth o flaen y disgrifiad o effaith sgiliau brwydro Owain ar wŷr Lloegr: '*Cysgid Lloegr llydan nifer, / â lleufer yn eu llygaid'* yn awgrymu mai un o'r Eingl oedd o. Efallai mai naill ai Ida brenin yr Angliaid yn ardal Brynaich o 547 ymlaen ydoedd neu ei fab Theodric. Gallai fod yn llysenw ar yr Eingl yn gyffredinol fel yr un sy'n cario fflam.
- Roedd balchder mewn llinach yn nodwedd o ganu arwrol a cheir cyfeiriad at berthynas Owain â'i dad Urien a'i daid neu ei hynafiaid: '*eisyllud ei dad a'i daid'*.
- Cristnogion oedd y Cymry yn yr Hen Ogledd yn ail hanner y chweched ganrif a gwelir hyn yn y modd y mae'r gerdd ar ffurf gweddi Gristnogol: '*Enaid Owain ab Urien, / gobwyllir ei Rên i'w raid'.*

- Dyddia'r llawysgrif, Llyfr Taliesin, i ddechrau'r 14eg ganrif. Perthyn i grŵp o lawysgrifau a alwyd gan yr hanesydd W. F. Skene yn 'Four Ancient Books of Wales'. Ynddo mae deuddeg cerdd a dybir eu bod yn dyddio o chwarter olaf y 6ed ganrif a naw ohonynt y credir mai Taliesin sydd wedi eu llunio.
- Cedwir llawysgrif Llyfr Taliesin yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 2 (a)** **(15)**

| | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| **12-15** | • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| **10-11** | • crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| **8-9** | • crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas |
| **5-7** | • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth am gefndir y bardd a'r gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu'n achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

(b) **Arddull y bardd** **(15)**

Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn:

- cynllunio atebion trefnus a chydlynol
- defnyddio dyfyniadau o'r cywydd yn eu hatebion er mwyn dadansoddi, yn ystyrlon, sut y mae'r bardd yn trosglwyddo'i weledigaeth a thrwy wneud hynny werthfawrogi arddull y dyfyniad
- gallu cyfeirio at rai o'r nodweddion arddull a throadau ymadrodd hyn a **manylu ar eu heffeithiolrwydd:**

- Cywydd yw'r **mesur** - datblygodd o'r traethodl, sef un o fesurau'r glêr. Bu Dafydd ap Gwilym yn un o'r arloeswyr a ddatblygodd y mesur drwy ei fireinio – cael cynghanedd ym mhob llinell a sicrhau bod y cwpledi'n odli, un yn acennog a'r llall yn ddiacen.
- Gwelir hiwmor yn y gerdd. Mae'n bosibl bod dylanwad y **fabliaux** ar y cywydd hwn, sef cerddi yn Ffrangeg oedd yn adrodd am dro trwstan, yn arbennig ynglŷn â serch. Dywed Saunders Lewis nad oes dim yng ngwaith D ap G y gellir ei alw'n bendant yn '*fabliaux*' ond mae ei ysbryd yn aml yn debyg i ysbryd cellwair awduron y '*fabliaux*'.
- Cymer Dafydd **agwedd ysgafn** yma. Mae'n chwerthin ar ei ben ei hun, a gellid ei ddychmygu'n datgan y cywydd o flaen cynulleidfa, ac yn gwneud ystumiau wrth ei gyflwyno'n ddigri. Mae Anthony Conran wedi galw Dafydd ap Gwilym yn '*the Charlie Chaplin of his time'.*
- Mae llawer o'r **sangiadau**'n fodd o gymryd ei hun yn ysgafn – '*gŵr gorwag oeddwn'* lle mae'n ei ddifrïo'i hun am ei ymgais aflwyddiannus i swyno'r ferch, neu '*tru tremyn'* ac *'alar fu'* lle mae'n rhagweld y llanast mae'r ymgais honno'n ei greu.
- Ceir rhai sangiadau lle mae'r bardd yn **ffugfoesoli**, sydd yn ychwanegu at yr hiwmor, gan nad yw mewn sefyllfa i fod yn foesol iawn. Enghreifftiau yw '*drwg fydd tra awydd', 'Mynych dwyll amwyll ymwrdd'* a '*Haws codi . . . yn drwsgl nog yn dra esgud.*' Mae fel pe bai'n gweld bai ar ei foesoldeb ei hun, sy'n creu'r hiwmor.
- Mae'r darlun o'r **tri Sais** '*mewn gwely drewsawr'* yn un ysgafn hefyd. Mae'r gynghanedd yn cysylltu'r ansoddair cyfansawdd '*drewsawr*' gyda'r '*drisais*' sy'n ychwanegu at y doniolwch drwy awgrymu eu bod hwythau hefyd yn drewi.
- Mae enwau'r Saeson a'r ffordd y cânt eu cyplysu yn y gynghanedd sain yn dangos hiwmor. Mae ffurfiau bachigol yr enwau, ynghŷd â sŵn y gynghanedd a chynnwys y disgrifiad yn pwysleisio'u harwahanrwydd ac yn codi gwên.
- Mae'r **llw** '*Cymru a'm câr'* hefyd yn ychwanegu at yr hiwmor. Yng nghanol ei helbul mae'r bardd am barhau i ymddwyn yn weddus ac yn hytrach na rhegi defnyddia'r llw ysgafn hwn.
- Gwelir **lleihad,** *'ni neidiais yn iach'* a *'nid oedd gampau da'* sydd hefyd yn ychwanegu at yr hiwmor. Awgrymu mae'r bardd iddo gael anaf cas mewn gwirionedd.

- Yn ychwanegol at y sangiadau sy'n cyfleu'r hiwmor mae eraill sy'n rhoi mwy o wybodaeth. Mae'r adran hon yn defnyddio **sangiadau** niferus ac mae Gwyn Thomas yn awgrymu fod y '*llanast cystrawennol'* yn adlewyrchu'r llanast gwirioneddol yn y dafarn. Dywed Dylan Foster Evans hefyd *'Bron nad yw rhythm y llinellau hyn yn dynwared symudiadau herciog a blêr yr adroddwr ei hun ac yn rhoi rhyw synnwyr neu deimlad i ni o hynny'.*
- Rhai sangiadau sy'n rhoi **gwybodaeth** i ni yma yw '*pan soniais yna'* ac '*a gwae'r omach'* sy'n dweud mwy am ganlyniad ei gwymp. Disgrifia *'ar waith ostler'* fwy ar y stôl a '*dragwrdd drefn'* fwy am y bwrdd. Mae '*drygioni drud'* a '*bu chwedl edifar'* yn rhoi mwy o wybodaeth am ei deimladau ynglŷn â'r anffawd

- Defnyddir y **cysylltair** *'a'* i restru'r holl rwystrau sydd yn wynebu Dafydd ap Gwilym wrth iddo geisio mynd at y ferch,

  '*Lle'r oedd cawg yrhawg yn rhydd*
  *A llafar badell efydd.*
  *Syrthio o'r bwrdd, dragwrdd drefn*
  *A'r ddeudrestl a'r holl ddodrefn.*

  Mae'n ychwanegu at y doniolwch a'r ysgafnder.
- Rhestrir **berfau** yn y person cyntaf yma – *'Ceisiais yn hyfedr . . . Cefais . . . pan soniais . . . Briwais . . . ni neidiais . . . Trewais . . .*' i bwysleisio mor benderfynol oedd y bardd i gyrraedd ei nod, ond i'r dodrefn brofi'n fwy o rwystr nag a feddyliodd.
- Yn dilyn hynny, rhestrir y **berfenwau** '*Syrthio . . . Rhoi . . . Gweiddi . . . Dyfod. . . '* sy'n rhoi'r argraff bod pethau'n digwydd yn sydyn a'n bod yn ddiymadferth yng nghanol yr helbul.
- **Personolir** y dodrefn – '*gweiddi o'r cawg', 'syrthio o'r bwrdd', 'rhoi diasbad o'r badell'* gan roi'r argraff eu bod yn ei atal rhag cyrraedd y ferch yn fwriadol. Aiff Dr Dylan Foster Evans ymhellach i awgrymu bod y disgrifiad o'r bardd fel '*gŵr gorwag'* yn awgrymu ei fod ef yn cael ei ddarlunio fel llestr gwag, ac fel yr awgryma'r ddihareb, '*Mwyaf trwst llestri gweigion'* ei fod, oherwydd ei ffolineb, yn cadw sŵn. Gofynna *'Tybed felly a yw Dafydd yma yn awgrymu y dylid cymharu'r adroddwr â'r llestri gweigion hyn, a bod ymgais yma eto i awgrymu rhyw fath o wers foesol i'r gynulleidfa, ac i wneud hwyl am ben yr adroddwr hefyd?'*

- Defnyddia'r bardd y **gynghanedd** yn gelfydd e.e. yn y llinell '*Mynych dwyll amwyll ymwrdd'* gallwn glywed, drwy gyfrwng y cytseiniaid, yr holl dwrw wrth iddo syrthio i'r llawr yng nghanol ei helbulon.
- Mae'r gynghanedd sain '*Lle'r oedd cawg yrhawg yn rhydd'* yn cyfleu sŵn yr atsain wrth i'r llestri grynu cyn syrthio.
- Mae'r gynghanedd lusg – '*Rhoi diasbad o'r badell'* eto'n cyfleu atsain y sŵn.
- Ceir llawer o gytseiniaid caled yn yr adran hon er mwyn cyfleu'r sŵn.

- Mae'r cywydd ei hun yn gywydd o **wrthgyferbyniadau**, fel y dywed Tudur Dylan Jones, '*cyferbyniad rhwng llwyddo a methu, a gobaith a siom'.* Mae gan Dafydd gymaint o ddisgwyliadau ar y cychwyn ond cyrraedd ei wely heb y ferch y mae ar y diwedd. Mae disgrifiadau mawreddog o'r bardd, ei was, y dref a'r wledd ar y dechrau'n cyferbynnu gyda'r ddisgynneb ddiurddas a ddaw iddo yma.
- Gwelir gwrthgyferbyniad trawiadol rhwng '*hustyng'* sy'n digwydd rhwng y bardd a'r ferch wrth fwyta, a'r sŵn byddarol a ddaw yma wrth i'r dodrefn ddisgyn.
- Cawn gyferbyniad rhwng yr holl sŵn – y '*diasbad', y 'gweiddi'*, y cŵn yn cyfarth â'r bardd '*Yn tewi yn y tywyll*' yn ddiweddarach. Mae'r cyferbyniad hwn yn pwysleisio mor ddiymadferth ac anlwcus yw'r bardd.
- Ceir gwrthgyferbyniad yn y disgrifiadau o'r bardd ar gychwyn y cywydd fel '[g]*ŵr hy, astud'* ac wedi'r trafferthion fel *'gŵr gorwag oeddwn'.*

Math ar foeswers yw'r cywydd hwn; ar un olwg yn stori am garwr edifeiriol yn cael ei helpu gan y saint, ond o dan hynny i gyd mae'r foeswers draddodiadol yn cael ei pharodïo yn goeglyd a digrif. Geilw Dr Dylan Foster Evans y gerdd yn '*gampwaith o gywydd dramatig, sy'n ddoniol, yn llawn tyndra a chlyfrwch geiriol, delweddol a seinegol.'*

**Cwestiwn 2 (b)** **(15)**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12-15** | • dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| **10-11** | • dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| **8-9** | • dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas |
| **5-7** | • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau |
| **3-4** | • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu'n achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer 2 (a) a 2 (b). **(15)**

| | **AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig** |
|---|---|
| **12-15** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| **10-11** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| **8-9** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **5-7** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon yn briodol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| **3-4** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon syml<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig. |

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymegeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

**<u>Asesiad Synoptig</u>**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 2 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith ysgrifenedig.

**[45]**



© WJEC CBAC Cyf.